

# RPW Ar-Lein Online


Taliadau Gwledig Cymru  
Rural Payments Wales



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

## Canllaw Syml i Gwsmeriaid ar Sut i Lawrlwytho Shapefiles



ISBN Digidol 978-1-83625-298-6  
© Hawlfraint y Goron 2024  
Fersiwn 1 a gyhoeddwyd Gorffennaf 2024


## Shapefiles

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi cyfarwyddiadau cam wrth gam i chi ar sut i lawrlwytho Shapefiles o'r Map Rhyngweithiol ar RPW Ar-lein.


Mae swyddogaeth newydd wedi'i hychwanegu at y Map Rhyngweithiol ar RPW Ar-lein. Bydd y swyddogaeth hon yn caniatáu ichi lawrlwytho data Shapefile fel .zipfile ar gyfer y tir sydd ar gael i chi.

Mae'r haen gyntaf yn cynnwys manylion y System Adnabod Parseli Tir (LPIS) ar gyfer pob parcel tir o dan eich daliad; mae'r ail haen yn cynnwys data Nodwedd Parhaol y daliad.

I lawrlwytho Shapefile, cliciwch ar y tab 'Tir' a dewiswch y **Map Rhyngweithiol** fel y dangosir yn y print sgrin isod.




Bydd y Map Rhyngweithiol yn agor fel y dangosir yn y sgrin isod.




Unwaith y bydd sgrin IMV wedi llwytho, wrth ymyl y bar chwilio, fe welwch gyfres o eiconau. Hofran dros bob eicon a dewiswch '**Lawrlwytho Shapefiles**'.



Ar ôl dewis '**Lawrlwytho Shapefiles**', bydd neges Telerau ac Amodau yn cael ei harddangos ar y sgrin. Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall y Telerau ac Amodau cyn cadarnhau eich bod yn cytuno.



Ar ôl cadarnhau, bydd y botwm **Lawrlwytho** yn dod yn brint trwm ac ar gael i chi ei wasgu. Cliciwch **Lawrlwytho**. Bydd 2 x Shapefile.zips yn cael eu creu ac yn ymddangos yn y ffeil lawrlwythiadau. Dylent hefyd ymddangos mewn blwch naid yng nghornel dde uchaf eich sgrin.




Bydd shapefile.zip yr LPIS yn cynnwys y data canlynol:

Nod adnabod Parseli tir  
OSSHEET  
NGFIELD  
Maint y Cae  
Enw Cae  
Statws Daliadaeth

Bydd y Shapefile.zip Nodwedd Barhaol yn cynnwys y canlynol:

Nod Adnabod Nodwedd Barhaol  
Cod Nodwedd Barhaol  
Arwynebedd Nodwedd Barhaol  
Nod Adnabod Parsel Tir  
Isspatial

Cofiwch, efallai y bydd y porwr rhyngrwyd yn dewis blocio lawrlwythiadau lluosog a gallai ffenestr newydd ymddangos ar eich sgrin fel y dangosir yn y sgrin isod. Dewiswch 'Parhau i ganiatáu lawrlwythiadau awtomatig o ffeiliau lluosog' a gwasgu gwnaed. Yna dylai eich Shapefile .zips ymddangos.



Unwaith y bydd y ffeiliau zip wedi'u creu, gallwch lwytho'r data Shapefile i'ch System Gwasanaethau GI eich hun.